CPS

Polisi'r CPS ar Erlyn Achosion o Dreisio

Adolygwyd 2012

Cynnwys

1 **Rhagarweiniad** 2

2 **Beth yw diffiniad treisio?** 5

3 **Swyddogaeth y CPS** 8

4 **Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron** 11

5 **A oes digon o dystiolaeth i erlyn?** 14

6 **Mechnïaeth** 22

7 **Helpu dioddefwyr a thystion i roi tystiolaeth** 25

8 **Derbyn pledion** 37

9 **Dedfrydu** 38

10 **Rhoi gwybod i ddioddefwyr beth sy'n digwydd** 41

11 **Ymgysylltu â'r gymuned** 43

12 **Cwynion** 44

13 **Casgliad** 45

14 **Geirfa** 46

Atodiad A: Manylion cyswllt ar gyfer rhai o'r sefydliadau sy'n darparu cymorth neu wybodaeth i ddioddefwyr treisio a phobl broffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr 50

1 Rhagarweiniad

1.1 Mae'r datganiad polisi hwn yn egluro sut byddwn ni, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), yn delio ag achosion ble gwnaed honiad o dreisio. Mae'n rhoi cyngor ar yr hyn y mae'r CPS yn ei wneud, sut mae achosion o dreisio yn cael eu herlyn, a'r hyn y gall dioddefwyr ei ddisgwyl gan y CPS. Mae'r ddogfen wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer y rhai sy'n cefnogi dioddefwyr treisio, boed yn broffesiynol neu'n bersonol, er y gallai fod o ddiddordeb hefyd i ddioddefwyr, tystion a'r cyhoedd.

1.2 Dyma ail rifyn y datganiad polisi ac mae'n adlewyrchu'r newidiadau yn y gyfraith a threfniadau'r CPS a ddigwyddodd ers cyhoeddi'r rhifyn cyntaf yn 2004. Treisio yw un o'r troseddau mwyaf difrifol. Mae'n gallu peri trawma parhaol i ddioddefwyr a'u teuluoedd. Rydym am i bobl wybod mai ein nod yw erlyn achosion o dreisio yn effeithiol, ac rydym eisiau i bobl wybod yr hyn y gallant ei ddisgwyl gennym.

1.3 Rydym yn ymwybodol bod canfyddiad cyffredinol bod y rhan fwyaf o achosion o dreisio yn cael eu cyflawni gan un dyn yn erbyn menyw nad yw'n ei hadnabod. Mewn gwirionedd, mae mwyafrif y dioddefwyr treisio yn fenywod a'r rhan fwyaf yn adnabod eu treisiwr. Fodd bynnag, mae treisio yn gallu cwmpasu dioddefwyr sy'n ddynion a menywod o bob oed. Mae'r datganiad polisi yn rhoi sylw i ymdrin â phob math o achosion o dreisio, gan gynnwys treisio o fewn priodas ac o fewn perthynas, treisio gan gydnabod a dieithriaid, yn erbyn dioddefwyr sy'n ddynion ac yn fenywod. Mae pob achos yr un mor ddifrifol a thrawmatig i'r dioddefwr. Mae treisio hefyd yn cael effaith ddinistriol ar deuluoedd dioddefwyr.

1.4 Y mae heriau ychwanegol ynghlwm wrth achosion o dreisio ble mae'r dioddefwr yn blentyn. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i anghenion plant a gafodd eu cam-drin, effeithiau'r trosedd, ac effeithiau ymddangos yn y llys, ar unrhyw dyst sy'n blentyn.

1.5 Rydym yn sylweddoli bod gan ddioddefwyr treisio benderfyniadau anodd i'w gwneud a fydd yn effeithio ar eu bywydau hwy ac ar fywydau'r rhai sy'n agos atynt.

1.6 Rydym yn cydnabod bod rhwystrau yn bodoli, sy'n golygu bod rhai pobl yn llai tebygol o roi gwybod am droseddau.

- Mae'n bosib y bydd dioddefwyr sydd mewn perthynas â'u hymosodwr, neu a fu mewn perthynas â'u hymosodwr, yn eu beio eu hunain neu'n teimlo y bydd asiantaethau'n eu beio nhw, ac mae'n ddigon posib y bydd anawsterau ehangach yn eu hwynebu, fel tarfu ar fywydau eu plant a'u teuluoedd estynedig.

- Mae'n bosib y bydd pobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wedi profi hiliaeth. Efallai y byddant yn ofni na fydd neb yn eu credu, neu na fyddant yn cael eu trin yn briodol. O ganlyniad, mae'n bosib y byddant yn gyndyn o roi gwybod am droseddau neu gefnogi erlyniad. Gall credoau diwylliannol a chrefyddol hefyd rwystro pobl rhag rhoi gwybod am droseddau neu gefnogi erlyniad.

- Mewn achosion sy'n ymwneud â threisio o fewn perthnasau o'r un rhyw, gall dioddefwyr ofni ymateb homoffobig gan y system cyfiawnder troseddol. Efallai eu bod yn ofni hefyd y byddai'r broses yn datgelu eu rhywioldeb.

- Gallai pobl ag anableddau corfforol ofni rhoi gwybod am dreisio os yw'r troseddwr yn ofalwr iddynt, neu ofni y byddant yn colli gofal preswyl.

- Gall pobl hŷn, yn benodol, gael eu rhwystro rhag rhoi gwybod am dreisio oherwydd teimladau o gywilydd neu embaras.

- Gall pobl ag anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl deimlo na fydd pobl yn eu credu os byddant yn rhoi gwybod am gael eu treisio.

1.7 Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol a nifer o sefydliadau cenedlaethol a lleol (er enghraifft y Gwasanaeth Tystion a ddarperir gan Gymorth i Ddioddefwyr), sy'n cynnig cefnogaeth i ddioddefwyr gydol yr achos. Gellir defnyddio mesurau arbennig i helpu dioddefwr neu dyst i roi tystiolaeth.

1.8 Er bod y datganiad polisi hwn yn berthnasol i dreisio yn benodol, byddwn yn ceisio cymhwyso arferion gorau a gweithdrefnau at bob math arall o droseddau rhywiol a erlynir, a sicrhau bod yr achosion hyn yn cael eu trin o ddifrif ac yn sensitif.

1.9 Efallai na fydd rhai o'r geiriau ac ymadroddion sy'n cael eu defnyddio yn y ddogfen hon yn gyfarwydd i bawb. Felly rydym wedi rhoi rhestr o dermau yng nghefn y ddogfen hon gan ddiffinio rhai o'r geiriau a'r ymadroddion sy'n cael eu defnyddio.

2 Beth yw diffiniad treisio?

2.1 Cafodd diffiniad treisio ei newid yn sylweddol gan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, a ddaeth i rym ar 1 Mai 2004.

2.2 Bydd troseddau a gyflawnwyd cyn 1 Mai 2004 yn cael eu herlyn dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956. Dan Ddeddf 1956, diffiniad statudol treisio yw unrhyw weithred o gyfathrach anghydsyniol gan ddyn gyda pherson, a gall y dioddefwr fod un ai'n wryw neu'n fenyw. Gall cyfathrach fod yn weiniol neu'n rhefrol. Nid yw'n cynnwys cyfathrach eneuol anghydsyniol. Roedd y llysoedd wedi diffinio cydsyniad yn ôl ei ystyr cyffredin, a gellid casglu diffyg cydsyniad o'r amgylchiadau cwmpasol, megis ildio oherwydd ofn. Y mae'n amddiffyniad os oedd y diffynnydd yn credu bod y dioddefwr yn cydsynio, hyd yn oed os oedd y gred hon yn afresymol, ac mae hyn fater o ffaith i'r rheithgor.

2.3 Bydd troseddau a gyflawnir ar neu ar ôl 1 Mai 2004 yn cael eu herlyn dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Mae Deddf 2003 yn estyn diffiniad treisio i gynnwys pidyn yn treiddio gwain, anws neu geg person arall. Mae Deddf 2003 hefyd yn newid y ddeddf ynghylch cydsyniad a chredu mewn cydsyniad.

2.4 Mae'r gair "cydsyniad" yng nghyd-destun trosedd treisio bellach yn cael ei ddiffinio yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003. Bydd person yn cydsynio os bydd ef neu hi yn cytuno trwy ddewis, a'u bod â'r rhyddid a'r gallu i wneud y dewis hwnnw. Hanfod y diffiniad hwn yw'r cytuno trwy ddewis. Nid yw'r gyfraith yn mynnu bod y dioddefwr wedi gwrthsefyll yn gorfforol er mwyn profi diffyg cydsyniad.

Mater i'r rheithgor yw penderfynu a yw'r dioddefwr wedi cydsynio ai peidio, er y byddwn yn ystyried y mater hwn yn hynod ofalus drwy gydol oes yr achos. Bydd yr erlynydd yn rhoi ystyriaeth i dystiolaeth am holl amgylchiadau'r trosedd.

2.5 Rydym yn ymwybodol bod ystyr cydsyniad yn gallu bod yn arbennig o berthnasol mewn achos o dreisio pan fu, neu pan fo, eisoes berthynas rhwng y diffynnydd a'r dioddefwr, neu ble mae trais yn y cartref wedi bodoli cyn i'r treisio ddigwydd. Gan fod Deddf 2003 yn ei gwneud hi'n gliriach beth yw ystyr y term "cydsyniad", fe ddylai helpu rheithgorau i benderfynu a oedd y dioddefwr yn gallu, ac mewn gwirionedd a wnaeth ef neu hi, roi caniatâd ar y pryd.

2.6 Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn mynnu bod y diffynnydd yn dangos bod ei gred mewn cydsyniad yn rhesymol. Wrth benderfynu a oedd cred y diffynnydd yn rhesymol, rhaid i reithgor ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys unrhyw gamau a gymerodd y diffynnydd i ganfod a wnaeth y dioddefwr gydsynio. Dan rai amgylchiadau, y mae rhagdybiaeth na wnaeth y dioddefwr gydsynio i weithgarwch rhywiol ac nad oedd y diffynnydd yn credu'n rhesymol bod y dioddefwr wedi cydsynio, oni bai y gall ddangos i'r gwrthwyneb. Ymhlith yr enghreifftiau o amgylchiadau ble mae'r rhagdybiaeth yn berthnasol yw ble'r oedd y dioddefwr yn anymwybodol, dan gyffur, wedi'i gipio neu'n wynebu bygythiadau neu ofn niwed difrifol.

2.7 Gall pobl sydd wedi yfed alcohol fod mor feddw fel nad oes ganddynt bellach y gallu i roi eu cydsyniad. Mae'r llysoedd yn cydnabod y gallant gyrraedd y cam hwn ymhell cyn iddynt fynd yn anymwybodol.

2.8 Profi diffyg cydsyniad yw'r rhan anoddaf fel arfer wrth erlyn achos treisio, a dyma'r rheswm mwyaf cyffredin fod achos treisio yn methu. Bydd erlynwyr yn chwilio am dystiolaeth fel niwed, ymaflyd, neu drallod uniongyrchol i'w helpu i brofi na wnaeth y dioddefwr gydsynio, ond yn aml mae'n bosib na fydd tystiolaeth ategol o'r fath. Nid yw hyn yn golygu na ellir byth erlyn yr achosion hyn yn llwyddiannus, ond y mae'n golygu eu bod yn anos. Yn niffyg unrhyw dystiolaeth arall i helpu i brofi na wnaeth y dioddefwr gydsynio, y mae'n bosib y gall rhai achosion fethu bodloni cam tystiolaethol y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron: (gweler paragraff 4.2).

2.9 Rydym yn cydnabod y gall dynion a menywod fod yn ddioddefwyr. Er mai menywod yw mwyafrif y dioddefwyr, a bod gweithredu yn erbyn treisio yn cael ei gynnwys fel rhan o Strategaeth Trais yn erbyn Menywod y CPS, byddwn yn cymhwyso ein polisi treisio heb wahaniaethu ym mhob achos.

3 Swyddogaeth y CPS

3.1 Mae'r CPS yn un rhan o'r system cyfiawnder troseddol, sy'n cynnwys sefydliadau eraill fel yr heddlu, y llysoedd, cyfreithyddion yr amddiffyniad, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Timau Troseddwyr Ieuenctid (YOT), y Gwasanaeth Tystion a'r Gwasanaeth Carchardai.

3.2 Rydym yn wasanaeth erlyn cyhoeddus dros Gymru a Lloegr, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Cawsom ein sefydlu yn 1986 er mwyn erlyn achosion a ymchwilir gan yr heddlu. Er y byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, rydym yn annibynnol arnynt. Rydym yn atebol i'r Senedd trwy'r Twrnai Cyffredinol, sef uwch Swyddog Cyfraith y Goron ac sydd hefyd yn Weinidog yn y Llywodraeth.

3.3 Rydym yn sefydliad cenedlaethol sy'n cynnwys 42 Rhanbarth, ynghyd â gwasanaeth y tu allan i oriau swyddfa o'r enw 'CPS Direct'. Mae pob Rhanbarth dan arweiniad Prif Erlynydd y Goron ac yn cyfateb i un o ranbarthau'r heddlu, gydag un Rhanbarth ar gyfer Llundain. Y mae'r 42 Rhanbarth bellach wedi'u grwpio yn 14 Bwrdd Strategol, ac eithrio CPS Llundain, sydd â'i dîm rheoli ei hun, dan arweiniad Prif Erlynydd y Goron Llundain. Mae pob Bwrdd Strategol yn cael ei arwain gan Brif Erlynydd y Goron sy'n Gadeirydd y Grŵp.

3.4 Yr heddlu sydd yn gyfrifol am ymchwilio i honiadau o drais a chasglu'r dystiolaeth. Yn yr achosion mwyaf difrifol neu gymhleth y ni sydd yn penderfynu a ddylid cyhuddo person dan amheuaeth o gyflawni trosedd ac, os felly, pa drosedd(au) y dylid ei ddewis. Ni fydd yr heddlu yn cyfeirio

pob cwyn am drosedd atom ni. Fodd bynnag, mewn achos lle mae'r aelod o'r heddlu sydd yn gyfrifol am benderfynu hynny yn credu bod digon o dystiolaeth i gyhuddo person o gyflawni trais, rhaid i'r heddlu gyfeirio'r achos hwnnw at Erlynydd y Goron a fydd yn penderfynu a ddylid cyhuddo. Mae rhagor o fanylion i'w cael yng Nghanllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) ar y Penderfyniad i Erlyn, 4ydd argraffiad, 4ydd a 5ed paragraff.

3.5 Mae'r CPS a'r heddlu wedi llofnodi protocol cenedlaethol ar y cyd gan gytuno i gadw at arferion gorau a pholisïau wrth ymchwilio i achosion o dreisio a'u herlyn.

3.6 Fel rhan o'n hymrwymiad i wella'r ffordd rydym yn erlyn achosion o dreisio, rydym wedi sefydlu rhwydwaith o erlynwyr arbenigol ym mhob un o Ranbarthau'r CPS. Mae'r CPS wedi pennu safon ar gyfer erlynwyr arbenigol ar dreisio, gan fod disgwyl i'n herlynwyr arbenigol ym mhob un o 42 Rhanbarth y CPS fod wedi'u hyfforddi a bod yn brofiadol wrth erlyn achosion o dreisio a throseddau rhywiol eraill. Mae'r rhwydwaith arbenigol hefyd yn rhoi cydgefnogaeth i erlynwyr arbenigol ar dreisio trwy eu galluogi i rannu gwybodaeth a phrofiad. Mae hyn yn atgyfnerthu eu harbenigedd a chynorthwyo gydag erlyniadau treisio yn y dyfodol.

3.7 Bydd ymgynghori buan yn digwydd rhwng yr erlynydd arbenigol a'r heddlu i sicrhau bod pob trywydd tystiolaeth posib yn cael ei archwilio a bod y cyhuddiad cywir yn cael ei ddewis. Ble bynnag y bydd modd, ein bwriad yw sicrhau y bydd yr un erlynydd arbenigol yn gyfrifol am yr achos o'r dechrau i'r diwedd a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu drwyddi draw. Mae dilyniant o'r fath yn bwysig. Mae'n golygu y gallwn sicrhau bod y dioddefwr yn cael y

gefnogaeth orau bosib drwy gydol yr achos.

3.8 Ar ôl derbyn adroddiad tystiolaethol gan yr heddlu, os bydd erlynydd arbenigol yn penderfynu na ddylid bwrw ymlaen â'r achos, rhaid i ail arbenigwr ar dreisio gadarnhau'r penderfyniad.

3.9 Ers 1 Hydref 2007, dim ond adfocadau erlyn a fynychodd gwrs wedi'i achredu gan y CPS ac a ddangosodd y sgiliau cywir wrth gael eu monitro, fydd yn cael ymgymryd ag erlyniadau treisio yn y llys.

4 Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

4.1 Mae'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron yn disgrifio sut byddwn yn gwneud penderfyniadau i erlyn ai peidio. Mae'r Côd yn ddogfen gyhoeddus. Byddwn yn arolygu'r achosion a gyfeirir atom gan yr heddlu yn unol â'r prawf a ddisgrifir yn y Côd. Mae dau gam i'r Prawf Côd Llawn.

Y cam tystiolaethol

4.2 Yn gyntaf, rhaid i ni fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad. Mae hyn yn golygu bod rheithgor neu farnwr sy'n gwrando achos ar ei ben ei hun, a dderbyniodd gyfarwyddwyd priodol yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o farnu'r diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig.

4.3 Mae'r prawf y byddwn yn ei ddefnyddio i benderfynu erlyn ai peidio yn wahanol i'r un a gymhwysir gan y llys cyn y gall farnu diffynnydd yn euog. Er mwyn cael dyfarniad euog, rhaid i ni brofi'r achos fel bod y llys yn sicr bod y diffynnydd yn euog.

4.4 Os nad yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, rhaid peidio â bwrw ymlaen, ni waeth pa mor bwysig neu ddifrifol y gallai fod.

Cam budd y cyhoedd

4.5 Os yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, rhaid i ni benderfynu a oes angen erlyn er budd y cyhoedd. Fel arfer

fe fydd erlyniad yn digwydd oni bai fod: "ffactorau o ran budd y cyhoedd sy'n tueddu yn erbyn erlyn ac sy'n amlwg yn drech na'r rhai sy'n tueddu o blaid" (Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron). Os bydd y prawf tystiolaethol yn cael ei fodloni, rydym yn credu bod treisio mor ddifrifol fel bod erlyniad bron yn sicr yn ofynnol er budd y cyhoedd.

4.6 Wrth ystyried cam budd y cyhoedd, un o'r ffactorau y dylai Erlynwyr y Goron bob amser ei ystyried yw "canlyniadau y penderfyniad i erlyn ai peidio o ran y dioddefwr; ac unrhyw farn a fynegir gan y dioddefwr neu deulu'r dioddefwr": paragraff 5.12 y Côd. Byddwn bob amser yn meddwl yn ofalus am fudd y dioddefwr wrth benderfynu ar fudd y cyhoedd. Ond byddwn yn erlyn achosion ar ran y cyhoedd ac nid yn unig er budd unrhyw unigolyn penodol. Gall fod yn anodd taro ar y cydbwysedd cywir yn hyn o beth. Mae barn a buddiannau'r dioddefwr yn bwysig, ond ni allant gael y gair olaf o ran erlyniad gan y CPS.

Y Prawf Trothwy

4.7 Bydd Erlynwyr y Goron yn cymhwyso'r Prawf Côd Llawn ble bynnag y bo modd. Fodd bynnag, fe fydd achosion weithiau pan fydd y sawl sy'n cael ei arestio yn cael ei ystyried yn anaddas i dderbyn mechnïaeth ond na fydd yr holl dystiolaeth ar gael ar yr adeg y mae'n rhaid gwneud penderfyniad cyhuddo.

4.8 Mewn achosion o'r fath, pan fydd yr ymchwiliad yn anghyflawn, gall y CPS gymhwyso'r Prawf Trothwy. Fodd bynnag, ni ellir cymhwyso'r Prawf Trothwy oni bai fod yr holl amodau canlynol wedi'u bodloni:

- y mae tystiolaeth annigonol i gymhwyso'r Prawf Côd Llawn;
- y mae sail resymol dros gredu y bydd gwell tystiolaeth ar gael o fewn cyfnod rhesymol;
- mae difrifoldeb yr amgylchiadau yn cyfiawnhau gwneud penderfyniad cyhuddo ar unwaith; ac
- y mae seiliau sylweddol parhaus dros wrthwynebu mechnïaeth.

4.9. Pan fydd yr holl amodau hyn wedi'u bodloni, gellir cymhwyso'r Prawf Trothwy a chyhuddo'r sawl sydd dan amheuaeth. Rhaid i benderfyniad i gyhuddo dan y Prawf Trothwy gael ei gadw dan arolwg a rhaid cymhwyso'r Prawf Côd Llawn yn yr achos cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

5 A oes digon o dystiolaeth i erlyn?

5.1 Fel arfer bydd treisio yn digwydd mewn lle preifat a'r dioddefwr yw'r unig dyst. Oni bai fod y diffynnydd yn pledio'n euog, y mae bron yn sicr y bydd yn rhaid i'r dioddefwr roi tystiolaeth yn y llys. Os oes tystiolaeth anghyson, mae'n ddyletswydd ar yr erlynydd i asesu hygrededd a dibynadwyedd tystiolaeth y dioddefwr. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn ffordd ofalus a sensitif bob tro, gan ddefnyddio'r holl wybodaeth a roddwyd i'r erlynydd. Efallai na ellir bwrw ymlaen ag achos, nid oherwydd nad yw'r erlyniad yn credu'r dioddefwr, ond, o ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael yn yr achos, oherwydd nad oes digon i fodloni cam tystiolaethol prawf y Côd.

5.2 Y mae rheolau ynghylch dadlennu i'r amddiffyniad unrhyw ddeunydd perthnasol a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad, nad yw'n rhan o achos yr erlyniad. Mae'r rheolau yn gymhleth, ond yn fras, y mae dyletswydd i ddadlennu i'r amddiffyniad unrhyw ddeunydd a allai danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo'r amddiffyniad.

5.3 Bydd yr heddlu bob amser yn chwilio am gadarnhad neu dystiolaeth ategol (megis tystiolaeth feddygol neu wyddonol, tystiolaeth CCTV, neu lygad-dystion i ddigwyddiadau cyn neu ar ôl y digwyddiad) ond nid yw'n hanfodol a gellir parhau ag erlyniad heb hynny. Fodd bynnag, rhaid i'r erlyniad bob amser brofi bod y diffynnydd yn euog. Gall achosion fethu oherwydd na all y rheithgor benderfynu rhwng yr hyn y mae'r dioddefwr yn ei ddweud a'r hyn y mae'r diffynnydd yn ei ddweud. Dyma pam ei bod

hi'n hanfodol casglu'r holl dystiolaeth fforensig a gwyddonol cyn gynted â phosib. Po gynharaf y bydd y dioddefwr yn rhoi gwybod am y treisio, y mwyaf yw'r siawns y bydd hyn yn cael ei wneud, a'r mwyaf yw'r siawns y gall yr erlyniad lunio achos cryf.

5.4 Os bydd dioddefwyr wedi dadlennu wrth bobl eraill iddynt gael eu treisio cyn rhoi gwybod i'r heddlu, y mae rheolau tystiolaethu cyfreithiol caeth yn llywodraethu a ellir defnyddio'r hyn a ddadlennwyd fel tystiolaeth yn y llys.

5.5 Rydym yn ymwybodol bod mythau a stereoteipiau yn gysylltiedig â throseddau treisio. Dyma rai enghreifftiau o fythau o'r fath:

- mae treisio yn digwydd rhwng dieithriaid mewn strydoedd cefn tywyll;
- mae dioddefwyr yn peri i dreisio ddigwydd oherwydd y ffordd y maent yn gwisgo neu'n ymddwyn;
- mae dioddefwyr sy'n yfed alcohol neu'n defnyddio cyffuriau yn gofyn am gael eu treisio;
- mae treisio yn drosedd nwyd;
- os na wnaethant sgrechian, ymladd neu gael eu niweidio, nid oedd yn dreisio;
- gallwch ddweud a gawsant eu treisio 'go iawn' yn ôl y ffordd y maent yn ymddwyn;
- bydd dioddefwyr yn honni iddynt gael eu treisio pan fyddant yn edifar am gael rhyw neu eisiau dial;
- dim ond dynion hoyw sy'n cael eu treisio/dim ond dynion hoyw sy'n treisio dynion; ac
- ni ellir treisio puteiniaid.

Bydd erlynwyr sy'n delio ag achosion o dreisio yn cael eu dysgu am hyn fel rhan o'u hyfforddiant arbenigol. Ni fyddwn yn caniatáu i'r mythau a'r stereoteipiau hyn ddylanwadu ar ein penderfyniadau a byddwn yn herio agweddau o'r fath yn gadarn yn y llys.

5.6 Rydym yn gwybod y bydd rhai dioddefwyr yn ei chael hi'n anodd iawn rhoi tystiolaeth ac y gall fod arnynt angen cefnogaeth ymarferol ac emosiynol. Bydd yr erlynydd arbenigol yn gwybod am effeithiau emosiynol a seicolegol treisio a bydd yn ymwybodol na fydd rhai cwynion am dreisio yn digwydd ar unwaith. Gallai unrhyw oedi gael ei briodoli i ofn dial, dychryn neu nifer sylweddol o ffactorau eraill. Mae'n bosib y gallai'r effaith ar ddioddefwyr treisio beri eu bod yn analluog yn emosiynol i ddarparu datganiad ysgrifenedig yn fuan ar ôl ymosodiad, neu hyd yn oed am ddyddiau neu wythnosau. Gall asiantaethau arbenigol roi cefnogaeth a chyngor.

Beth sy'n digwydd os bydd y dioddefwr yn tynnu'r gefnogaeth i'r erlyniad yn ôl, neu'n penderfynu nad yw bellach yn dymuno rhoi tystiolaeth?

5.7 Weithiau mewn erlyniad, gall dioddefwyr dynnu eu cefnogaeth yn ôl ac mae'n bosib na fyddant bellach yn dymuno rhoi tystiolaeth. Nid yw hyn yn golygu y bydd yr achos yn cael ei atal yn awtomatig. Os bydd y dioddefwr wedi penderfynu tynnu ei gefnogaeth i'r erlyniad yn ôl, mae'n rhaid i ni ddarganfod pam. Gallai hyn olygu oedi'r gwrandawiad llys i ymchwilio i'r ffeithiau a phenderfynu ar y peth gorau i'w wneud.

5.8 Fe wnawn ni gymryd y camau canlynol:

- os bydd y dioddefwr yn penderfynu tynnu ei gefnogaeth ef neu hi yn ôl, byddwn yn gofyn i'r heddlu gymryd datganiad ysgrifenedig gan y dioddefwr i egluro'r rhesymau dros dynnu'n ôl, i gadarnhau a oedd y gŵyn wreiddiol yn wir a darganfod a roddwyd unrhyw bwysau ar y dioddefwr i dynnu'r gefnogaeth yn ôl; a

- byddwn yn gofyn i'r heddlu am eu barn ynglŷn â'r dystiolaeth yn yr achos a sut byddai'r dioddefwr yn ymateb, yn eu barn nhw, petai ef neu hi yn cael ei orfodi i fynychu'r llys.

5.9 Os bydd datganiad y dioddefwr, ar ôl tynnu'r gŵyn yn ôl, yn wahanol i'r datganiad blaenorol, rydym yn disgwyl i'r heddlu ofyn i'r dioddefwr egluro pam ei fod wedi newid.

5.10 Os bydd y dioddefwr yn cadarnhau bod y gŵyn wreiddiol yn wir, fe wnawn ni ystyried yn gyntaf a yw hi'n bosib parhau i erlyn heb ei dystiolaeth ef neu hi (y cam tystiolaethol) ac yna, os yw hynny'n bosib, a ddylem ni barhau â'r achos heb gefnogaeth y dioddefwr ac yn groes i ddymuniadau'r dioddefwr (cam budd y cyhoedd).

5.11 Bydd yr erlynydd eisiau gwybod y rheswm pam nad yw'r dioddefwr yn dymuno rhoi tystiolaeth erbyn hyn. Efallai fod hyn oherwydd bod y dioddefwyr yn teimlo embaras neu'n ofni na fydd neb yn eu credu. Efallai mai'r rheswm yw eu bod yn byw mewn lle ble byddant yn teimlo'n ynysig neu'n arbennig o agored i niwed (ac rydym yn cydnabod y gall teimlo'n ynysig neu'n agored i niwed fod wedi atal y dioddefwr yn y lle cyntaf neu wneud iddo ef neu hi oedi cyn

rhoi gwybod am y digwyddiad), ble gallai cefnogi'r erlyniad olygu bod y dioddefwr yn wynebu rhagor o risg o niwed. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r erlynydd roi ystyriaeth i unrhyw fesurau arbennig neu gefnogaeth arall sydd ar gael i'r dioddefwyr a allai eu helpu i oresgyn eu pryderon.

5.12 Os byddwn yn amau bod y dioddefwr wedi dod dan bwysau neu wedi'i ddychryn i dynnu'r gŵyn yn ôl, byddwn yn gofyn i'r heddlu ymchwilio ymhellach. Gallai'r ymchwiliad ddadlennu troseddau newydd, megis er enghraifft, aflonyddu neu ddychryn tyst, neu fod amodau'r fechnïaeth wedi'u torri. Os bydd angen, byddwn yn gofyn i'r llys oedi unrhyw wrandawiad er mwyn gallu cynnal ymchwiliad trylwyr cyn i ni benderfynu ynghylch dyfodol yr achos. Os yw'r rheswm dros ddioddefwr neu dyst yn tynnu cyhuddiad yn ôl yn seiliedig ar ofn neu frawychu, bydd yr erlynydd yn ystyried y dystiolaeth honno a phenderfynu a ddylid dwyn cyhuddiadau pellach, er enghraifft brawychu tyst.

5.13 Byddwn yn edrych ar yr holl ddewisiadau hyn yn llawn, cyn penderfynu a fyddwn yn parhau i erlyn ai peidio. Bydd diogelwch y dioddefwr neu unrhyw un arall a allai fod yn agored i niwed, yn ystyriaeth bwysig wrth i ni ddod i benderfyniad.

Beth sy'n digwydd os penderfynir parhau i erlyn yn groes i ddymuniadau dioddefwr?

5.14 Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r trosedd (oherwydd, er enghraifft, lefel y trais a ddefnyddiwyd neu'r bygythiad gwirioneddol a pharhaus i'r dioddefwr neu eraill), y mwyaf tebygol ydym ni o erlyn er budd y cyhoedd, hyd yn oed os bydd y dioddefwr yn dweud nad yw'n dymuno i ni wneud hynny.

5.15 Mewn achosion ble mae gennym ddigon o dystiolaeth arall, efallai y byddwn yn penderfynu bwrw ymlaen heb ddibynnu ar dystiolaeth y dioddefwr o gwbl.

5.16 Os byddwn yn penderfynu y dylai'r achos barhau ac y byddai angen dibynnu ar dystiolaeth dioddefwr i brofi'r achos, rhaid i ni benderfynu:

- a ddylem ni wneud cais i'r llys i'n caniatáu i ddefnyddio datganiad y dioddefwr yn dystiolaeth heb i'r dioddefwr orfod rhoi tystiolaeth yn y llys;
- a allwn ni barhau i erlyn trwy gynorthwyo'r dioddefwr i fynychu'r llys trwy ddefnyddio mesurau arbennig; neu
- a ddylem ni orfodi'r dioddefwr i roi tystiolaeth yn bersonol yn y llys.

5.17 Mae gwybodaeth gefndir yn hanfodol er mwyn helpu erlynydd i wneud y penderfyniad cywir ynghylch sut i fwrw ymlaen ag achos ble bydd y dioddefwr wedi tynnu ei gefnogaeth i'r erlyniad yn ôl.

5.18 Mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ddefnyddio datganiad y dioddefwr yn y llys heb alw'r dioddefwr i roi tystiolaeth ar lafar, ond dan amodau cyfyngedig iawn yn unig. Mater i'r llys ei benderfynu yw hyn, ac ni fydd yn caniatáu i hyn ddigwydd oni bai fod gwneud hynny er budd cyfiawnder. Os mai'r dioddefwr yw'r unig dyst i'r trosedd, fe all fod yn anodd bodloni'r llys y gweinyddir cyfiawnder pan na fydd cyfle i'r amddiffyniad groesholi'r prif dyst yn yr achos.

5.19 Ni fydd yr erlynydd arbenigol ar dreisio yn galw ar ddioddefwr i roi tystiolaeth yn groes i'w ddymuniad ef neu hi oni bai fod yr erlynydd yn fodlon, ar ôl ymgynghori â'r heddlu ac unrhyw berson arall â diddordeb, bod gweithredu o'r fath yn angenrheidiol.

5.20 Y mae bob amser yn well gennym fod dioddefwr a thystion yn rhoi tystiolaeth o'u gwirfodd a byddwn yn cymryd pa gamau bynnag a allwn i'w helpu i oresgyn eu hofnau a rhoi eu tystiolaeth orau.

Gwybodaeth gefndir

Cymeriad gwael

5.21 Mae yna reolau tystiolaethu cyfreithiol caeth sy'n llywodraethu a ellir defnyddio euogfarnau blaenorol y sawl a amheuir neu dystiolaeth arall o gymeriad gwael yn y llys. Rhaid i ni gadw'r rheolau hyn mewn cof pan fyddwn yn penderfynu a allwn fwrw ymlaen ag achos ai peidio.

5.22 Hyd yn oed os na allwn ddefnyddio'r math hwn o dystiolaeth, gall fod yn wybodaeth gefndir bwysig a fydd yn ein helpu i roi'r trosedd yn ei gyd-destun. Er enghraifft, gall y dioddefwr fod wedi wynebu ymosodiadau dro ar ôl tro a gallai fod yn agored i ganlyniadau eraill os na fydd yr erlyniad yn mynd yn ei flaen.

5.23 Gallai peth gwybodaeth ddod o ffynonellau fel ysgolion, cyflogwyr, a gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i'r heddlu gasglu'r wybodaeth hon i gyd a'i rhoi i erlynydd y CPS.

Datganiadau Personol Dioddefwyr

5.24 Ffynhonnell bwysig arall o wybodaeth i'r erlynydd a'r llys yw Datganiad Personol y Dioddefwr. Mae hwn yn ddatganiad a wneir gan ddioddefwyr trosedd sy'n egluro'r effaith a gafodd y trosedd arnyn nhw. Yn y datganiad, gall dioddefwyr egluro eu dymuniadau neu eu hanghenion yn

ystod yr achos ac a oes arnynt eisiau help gan unrhyw rai o'r asiantaethau cefnogi. Gallant ddweud a ydynt yn cefnogi erlyniad ai peidio a gallant godi eu pryderon am faterion fel eu diogelwch, unrhyw frawychu neu fechnïaeth y diffynnydd. Gall dioddefwyr wneud mwy nag un Datganiad a all helpu i egluro sut mae'r trosedd wedi effeithio arnyn nhw yn y tymor hir. Bydd Datganiadau Personol Dioddefwyr yn cael eu cynnwys ym mhapurau'r achos ac fe'u gwelir gan bawb sydd ynghlwm â'r achos, gan gynnwys y diffynnydd a'i gyfreithydd. Bydd Datganiadau Personol Dioddefwyr yn helpu'r erlynydd a'r barnwr i ddeall y trosedd, a'i effeithiau a'i ganlyniadau. Mae hawl gan ddioddefwyr i ddewis a ydynt yn dymuno gwneud Datganiad Personol Dioddefwr ac a oes arnynt angen help gan weithiwr cefnogi neu aelod o'u teulu i wneud datganiad.

5.25 Dylai fod yn glir yn natganiad y dioddefwr a gawsant wybod ai peidio am y ffaith y gallant wneud Datganiad Personol Dioddefwr. Os nad yw'n glir, bydd yr erlynydd yn gofyn i swyddog yr heddlu fynd yn ôl at y dioddefwr ac egluro y gall wneud Datganiad Personol Dioddefwr os yw'n dymuno. Mae taflen ar gael sy'n egluro beth yw Datganiadau Personol Dioddefwyr a sut y gellir eu defnyddio. Mae copïau o'r daflen i'w cael yn:
http://www.homeoffice.gov.uk/documents/victimstate.pdf

5.26 Byddwn yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wybodaeth a geir yn Natganiad Personol y Dioddefwr a byddwn yn dweud wrth y llys am effeithiau'r trosedd ar y dioddefwr. Gallwn ddefnyddio'r Datganiadau hyn i'n helpu i wneud penderfyniadau ynghylch achosion, er enghraifft, wrth benderfynu a ddylem ofyn i'r llys wrthod mechnïaeth neu osod amodau ar fechnïaeth.

6 Mechnïaeth

6.1 Unwaith y bydd person dan amheuaeth wedi'i gyhuddo o dreisio, bydd yr heddlu yn penderfynu a yw'n briodol rhyddhau'r person dan amheuaeth ar fechnïaeth i fynychu gwrandawiad llys o fewn cyfnod byr o amser. Fodd bynnag, oherwydd bod treisio yn drosedd mor ddifrifol, gellir penderfynu cadw'r person dan amheuaeth yn y ddalfa er mwyn gallu ymddangos yn y llys nesaf a fydd ar gael ar gyfer gwrandawiad remandio.

6.2 Yn y gwrandawiad mechnïaeth, bydd yr ynadon yn penderfynu a yw mechnïaeth yn briodol ar ôl clywed cyflwyniadau gan yr erlyniad a'r amddiffyniad. Mae hawl gan ddiffynnydd i gael mechnïaeth. Ni all y llys wrthod mechnïaeth oni bai ei fod yn fodlon y byddai'r diffynnydd yn methu ildio i gadwraeth, y byddai'n cyflawni trosedd tra bydd ar fechnïaeth, neu'n ymyrryd â thystion neu fynd ati fel arall i rwystro cwrs cyfiawnder. Gellir gwrthod rhoi mechnïaeth hefyd os cafodd y trosedd ei gyflawni tra oedd y diffynnydd eisoes ar fechnïaeth am drosedd difrifol arall, neu er diogelwch y diffynnydd ei hun. Y mae eithriad i'r hawl i fechnïaeth ar gyfer rhai troseddwyr ailadroddus difrifol, gan gynnwys y rhai a gafodd eu heuogfarnu o dreisio yn y gorffennol. Bryd hynny, ni all y llys ond caniatáu mechnïaeth dan amgylchiadau eithriadol.

6.3 Yn y gwrandawiad, bydd yr heddlu yn rhoi digon o wybodaeth i'r erlynwyr fel y gallant wneud penderfyniad ynghylch a ddylid gwrthwynebu mechnïaeth i'r diffynnydd.

6.4 Os bu perthynas rhwng y dioddefwr a'r diffynnydd, bydd yr heddlu yn rhoi cymaint o wybodaeth gefndir i ni â phosib.

Gallai hyn gynnwys gwybodaeth fel nifer ac oedrannau unrhyw blant a pha mor agos yw cyfeiriadau perthnasau'r diffynnydd at gyfeiriad y dioddefwr. Bydd hefyd yn cynnwys manylion unrhyw orchmynion sifil sydd mewn grym ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

6.5 Bydd yr erlynydd yn rhoi ystyriaeth i Ddatganiad Personol y Dioddefwr, os bydd y dioddefwr wedi penderfynu gwneud datganiad, wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwrthwynebu mechnïaeth ai peidio, a pha amodau allai fod yn addas. Yn Natganiad Personol y Dioddefwr, gall y dioddefwr ddewis disgrifio effeithiau'r treisio ac unrhyw bryderon am ganiatáu mechnïaeth i'r diffynnydd. Bydd unrhyw benderfyniad yn ystod yr achos yn rhoi ystyriaeth i Ddatganiad Personol y Dioddefwr.

6.6 Er mwyn diogelu'r dioddefwr neu dystion rhag perygl, bygythiadau neu bwysau, a allai rwystro cwrs cyfiawnder, gallwn ofyn am i'r diffynnydd gael ei gadw yn y ddalfa.

6.7 Mae'n ofynnol bod ynadon yn rhoi rhesymau mewn llys agored os byddant yn caniatáu mechnïaeth i ddiffynnydd. Os na fyddant yn rhoi rhesymau, byddwn yn gofyn iddynt ddatgan eu rhesymau. Os bydd yr erlynydd yn gwrthwynebu mechnïaeth, ond yr ynadon yn caniatáu mechnïaeth, bydd yr erlynydd yn penderfynu a fydd yn apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw ai peidio. Os bydd apêl, bydd y diffynnydd yn cael ei gadw yn y ddalfa hyd nes y bydd barnwr yn Llys y Goron yn gwrando'r apêl.

6.8 Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i gael barn dioddefwyr a thystion am amodau'r fechnïaeth ac unrhyw newidiadau iddynt a gynigir. Byddwn yn gweithio gyda'r

heddlu a'r llysoedd i sicrhau bod y dioddefwr neu'r tyst yn cael gwybod beth sy'n digwydd, naill ai gan yr heddlu neu gennym ni, am unrhyw newid yn amodau'r fechnïaeth neu statws dal y sawl a gyhuddwyd.

7 Helpu dioddefwyr a thystion i roi tystiolaeth

Mesurau arbennig

7.1 Mae rhoi tystiolaeth yn gallu bod yn brofiad trawmatig dros ben i ddioddefwyr treisio. Yn benodol, gall rhai dioddefwr ei chael hi'n anodd rhoi tystiolaeth yng ngolwg y diffynnydd. Os felly, gallwn wneud cais i'r llys yn gofyn am i'r dioddefwr gael rhoi tystiolaeth mewn ffordd arall er mwyn iddo ef neu hi allu rhoi ei dystiolaeth orau. Yr enw ar y ffyrdd eraill hyn o roi tystiolaeth yw 'mesurau arbennig' a dyma enghreifftiau:

- chwarae cyfweliad y dioddefwr neu'r tyst a recordiwyd ar dâp fideo i'r llys (wedi'i recordio'n flaenorol gan yr heddlu yn ystod yr ymchwiliad). Mae hyn yn golygu na fydd yn rhaid i'r dioddefwr neu'r tyst roi tystiolaeth 'fyw' am yr hyn a ddigwyddodd iddyn nhw, ond fe fydd yn dal yn rhaid iddynt ateb cwestiynau gan gyfreithydd y diffynnydd yn ystod y croesholiad;

- rhoi tystiolaeth o'r tu ôl i sgrîn yn ystafell y llys er mwyn rhwystro'r dioddefwr (neu dyst arall) a'r diffynnydd rhag gweld ei gilydd; a

- rhoi tystiolaeth yn rhywle heblaw ystafell y llys trwy gyswllt teledu byw er mwyn rhwystro'r dioddefwr neu'r tyst rhag gorfod mynd i'r llys. Ni fydd y tyst yn gallu gweld y diffynnydd dros y cyswllt teledu ond fel arfer bydd y diffynnydd yn dal i weld y tyst ar sgrîn deledu.

7.2 Gellir rhoi tystiolaeth yn breifat hefyd trwy glirio'r oriel gyhoeddus mewn achosion o droseddau rhywiol neu achosion sy'n gysylltiedig â dychryn.

7.3 Mae'r erlynydd yn gyfrifol am wneud cais i'r llys am unrhyw fesurau arbennig ar ran dioddefwyr a thystion ar ôl trafod gyda'r heddlu. Mae'n hanfodol ein bod yn gwybod pa fesurau arbennig y mae ar ddioddefwyr a thystion eu heisiau. Mae'n hanfodol hefyd fod manteision ac anfanteision pob mesur arbennig sydd ar gael wedi cael eu hegluro wrth y dioddefwr er mwyn iddo ef neu hi allu gwneud dewis gwybodus.

7.4 Mater i'r llys yw penderfynu caniatáu neu wrthod ceisiadau am fesurau arbennig mewn achosion o dreisio. Rhagdybir yn awtomatig bod dioddefwr treisio yn gymwys ar gyfer mesurau arbennig oni bai fod y llys yn cael gwybod nad oes arno ef neu hi angen hyn. Os yw'r dioddefwr neu'r tyst yn blentyn, bydd eu tystiolaeth yn cael ei recordio ar fideo a'i chwarae yn y llys oni bai fod y llys yn ystyried bod gwneud hyn yn groes i fuddiannau cyfiawnder, er enghraifft, ble mae'r recordiad fideo yn cynnwys nifer o ddiffygion technegol, cwestiynau amhriodol, neu ddeunydd arall sy'n niweidiol i dreial teg.

7.5 Yn ddelfrydol, dylid gwneud penderfyniadau yn fuan ynghylch mesurau arbennig i gynorthwyo dioddefwyr a thystion; fodd bynnag, gall amgylchiadau newid ac y mae hi bob amser yn bosib gwneud cais ar unrhyw gam yn yr achos. Os bydd angen, gellir trefnu cyfarfod gyda'r dioddefwr neu'r tystion i drafod pa fesurau arbennig fyddai'n briodol.

7.6 Mewn rhai achosion, bydd dioddefwyr yn dweud i ddechrau nad oes arnynt angen mesurau arbennig ond yn ddiweddarach gallant sylweddoli bod arnynt eu hangen a bod arnynt ofn dweud bryd hynny. Byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn ymwybodol y gallant newid eu meddyliau ynghylch mesurau arbennig.

7.7 Mae'n bwysig fod gennym yr holl wybodaeth sydd ar gael a allai ein helpu i wneud cais am fesurau arbennig ar gyfer tyst. Fel arfer, bydd yr heddlu neu'r Swyddog Gofal Tystion yn rhoi'r wybodaeth i ni. Weithiau gallwn gael y wybodaeth trwy gwrdd â'r tyst yn uniongyrchol.

Defnyddio canolwyr ar gyfer tystion agored i niwed

7.8 Y mae defnyddio canolwr yn enghraifft arall o'r "mesurau arbennig" sydd ar gael i ddioddefwyr a thystion. Mae canolwr yn rhywun a gymeradwyir gan y llys i roi gwasanaeth sy'n galluogi tystion a'r llys gyfathrebu â'i gilydd. Bydd canolwyr proffesiynol – sef therapyddion lleferydd ac iaith fel arfer neu ganolwyr pobl fyddar sy'n deall diwylliant pobl fyddar – yn gweithio gyda thystion i wneud yn siwr eu bod yn cael eu deall ac yn gallu deall y cwestiynau a ofynnir iddynt. Gall canolwyr weithio gyda thystion a chynorthwyo wrth gymryd tystiolaeth yn y lle cyntaf a phan fyddant yn y llys, fel y gallant gyflawni eu tystiolaeth orau yn y treial. Gall canolwyr ddod o amrywiaeth o gefndiroedd gan gynnwys gwaith cymdeithasol, therapi iaith a lleferydd neu gallant fod ag adnabyddiaeth unigryw o'r tyst.

Cyfarfodydd mesurau arbennig rhwng y CPS a dioddefwyr treisio a thystion

7.9 Pan fyddwn wedi penderfynu a ydym yn mynd i wneud cais i'r llys am fesurau arbennig, byddwn yn gofyn i'r heddlu ddarganfod a fyddai'r tyst yn hoffi cwrdd â'r erlynydd.

7.10 Pwrpas cyfarfod o'r fath yw meithrin ymddiriedaeth a hyder a'n galluogi i sicrhau'r tyst y bydd eu hanghenion yn cael eu hystyried. Byddwn hefyd yn cynnig cyfarfod o'r fath os byddwn wedi penderfynu peidio â gwneud cais am fesurau arbennig er mwyn gallu egluro'r penderfyniad hwnnw. Nid oes raid i'r tyst fynychu'r cyfarfod hwnnw heb gwmni. Gallant ddod â phartner, perthynas, ffrind neu gefnogwr arall gyda nhw. Gall fod yn briodol hefyd i gyfieithydd neu berson arall tebyg fynychu'r cyfarfod. Ble bynnag y bo modd, bydd erlynydd y CPS yn sicrhau bod yr adfocad a fydd yn cynnal y treial yn mynychu'r cyfarfod rhwng erlynydd y CPS a'r tyst.

7.11 Mae rhagor o wybodaeth am gyfarfodydd gyda'r CPS ar gyfer tystion agored i niwed neu dystion sy'n cael eu brawychu yn y daflen "Tystion, Eich Cyfarfod gydag Erlynydd y CPS". Mae'r daflen hon ar gael gan Gangen Cyfathrebu y CPS, 50 Ludgate Hill, Llundain EC4 7EX, neu ar ein gwefan:
http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/witnesseng.html

Cyfweliadau gyda thystion cyn y treial

7.12 Bydd yr erlynydd yn gallu cwrdd â'r dioddefwr neu dystion eraill ar gam cynnar yn y broses droseddol os byddant yn ystyried hyn yn briodol, yn yr hyn a elwir yn gyfweliad cyn y

treial. Mae'r cyfarfodydd hyn yn wahanol i'r cyfarfodydd mesurau arbennig a ddisgrifir uchod. Pwrpas y cyfarfodydd gyda thystion cyn y treial yw galluogi'r erlynydd i wneud penderfyniad mwy gwybodus ynghylch unrhyw agwedd ar yr achos. Bydd ein penderfyniadau yn wrthrychol ond yn cael eu gwneud o fewn fframwaith sy'n hybu cefnogaeth i ddioddefwyr trwy roi gwybod iddynt beth sy'n digwydd.

7.13 Gall tyst fynd yng nghwmni cefnogwr o'u dewis ar yr amod nad oes gan y cefnogwr ran wirioneddol neu bosib yn yr achos nac unrhyw wybodaeth bersonol am y materion sy'n debygol o gael eu trafod. Ni fydd presenoldeb swyddog yr heddlu yn briodol fel arfer ond yn eithriadol gall yr erlynydd ofyn i swyddog yr heddlu fod yn bresennol os bydd yn ystyried hyn yn angenrheidiol.

Bod yn ddienw

7.14 Mae llawer o ddioddefwyr a thystion yn pryderu am eu diogelwch, gan ofni y gallai manylion neu wybodaeth bersonol amdanynt ddod yn hysbys i'r cyhoedd a'u rhoi mewn perygl y bydd ymosodiad neu aflonyddu pellach yn digwydd.

7.15 Yn gyffredinol, un o egwyddorion sylfaenol ein system cyfiawnder troseddol yw fod hawl gan y rhai sy'n cael eu cyhuddo i wybod enw'r sawl sy'n eu cyhuddo. Bydd y rhan fwyaf o achosion cyfreithiol yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, a bydd gwybodaeth am bwy yw'r tyst yn dod yn fater o gofnod cyhoeddus.

7.16 Fodd bynnag, yn ôl y gyfraith, mae hawl gan ddioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol i fod yn ddienw yn y cyfryngau, hyd yn oed os rhoddwyd eu henw yn y llys.

7.17 Hefyd, ni fydd cyfeiriadau'r tystion yn cael eu datgelu i'r diffynnydd ac, oni bai fod hynny eisoes yn hysbys (er enghraifft, pan fydd y trosedd wedi'i gyflawni gan gymydog) neu os bydd eu hangen ar gyfer y dystiolaeth, ni fyddant yn cael eu crybwyll yn yr achos cyfreithiol.

7.18 Dim ond dan rai amgylchiadau eithriadol y gall llys ganiatáu i dystion beidio â rhoi eu henw yn agored yn y llys.

7.19 Mewn achosion eraill, mae gan y llys rym i wahardd y cyfryngau rhag rhoi manylion personol tyst os yw o'r farn bod ansawdd tystiolaeth neu gydweithrediad y tyst yn yr achos yn debygol o ddirywio oherwydd bod y tyst yn ofni cael ei adnabod fel tyst yn yr achos. Mae hawl gan gynrychiolwyr y cyfryngau i wrthwynebu gorchymyn llys sy'n gwahardd cyhoeddi'r wybodaeth hon, er budd gohebu agored.

Cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion yn y llys

7.20 Mae'r CPS yn llwyr ymroddedig i gymryd yr holl gamau ymarferol i helpu dioddefwyr a thystion drwy'r profiad o fod yn rhan o'r broses cyfiawnder troseddol, sef profiad anodd yn aml.

7.21 Cafodd amryfal fentrau fel mesurau arbennig, cyfarfodydd rhwng y CPS a thystion, a chreu Unedau Gofal Tystion un pwrpas wedi'u staffio gan y CPS a phersonél yr heddlu, oll eu cynllunio i gynyddu hyder y tyst yn y system cyfiawnder troseddol. Mae cefnogaeth ar gael hefyd, o gam cynnar iawn yn y broses, gan yr heddlu ac asiantaethau cefnogi eraill, a gall hynny barhau gydol yr erlyniad.

7.22 Byddwn yn sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud i gael cyfieithydd ar gyfer yr achos llys pan fydd angen un.

7.23 Pan fydd tyst yn mynychu llys, bydd erlynydd y CPS sy'n cyflwyno'r achos neu weithiwr achosion penodol y CPS yn eu cyflwyno eu hunain ac ateb unrhyw ymholiadau cyffredinol fydd gan y tyst. Fodd bynnag, ni fyddant yn cael trafod manylion yr achos gyda'r tyst.

7.24 Weithiau, gall y cyfreithydd sy'n erlyn fod yn fargyfreithiwr (cwnsler yw enw arall am fargyfreithiwr) neu'n gyfreithiwr, nad yw'n aelod o'r CPS ond a gafodd ei gyflogi gennym i gyflwyno'r achos yn y llys. Rydym yn disgwyl i bob bargyfreithiwr neu gyfreithiwr a gyflogwn fod yn gyfarwydd â'n polisïau a'n trefniadau a gweithredu'n unol â nhw. Rydym yn ymrwymo i gyfarwyddo adfocadau sydd â'r sgiliau addas i erlyn achosion o dreisio, gan gynnwys eu gallu i ddelio'n sensitif gyda dioddefwyr a thystion. Byddwn yn eu cyfarwyddo i siarad â dioddefwyr a thystion cyn iddynt roi tystiolaeth a cheisio gwneud tystion nerfus yn gartrefol.

7.25 Byddwn yn talu costau rhesymol i dyst am fynychu llys ac am eu costau gofal plant.

7.26 Os bydd yn rhaid i dystion aros, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael gwybod y rhesymau dros yr oedi a phryd yn fras y bydd angen iddynt roi tystiolaeth.

7.27 Ble bynnag y bo modd, byddwn yn ceisio sicrhau bod cyfleusterau aros ar wahân ar gyfer tystion yr erlyniad fel nad oes raid iddynt gymysgu â'r diffynnydd neu ffrindiau neu deulu'r diffynnydd, ac fel arall.

Y Gwasanaeth Tystion

7.28 Mewn llysoedd ynadon a chanolfannau Llysoedd y Goron mae Gwasanaeth Tystion ar gael, sef gwasanaeth a ddarperir gan Gymorth i Ddioddefwyr. Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn gan yr heddlu lleol neu gan grŵp lleol Cymorth i Ddioddefwyr [rhif ffôn 0845 30 30 900]. Mewn rhai llysoedd mae gwasanaeth arbenigol ar gyfer Tystion sy'n Blant hefyd.

7.29 Gall aelodau'r Gwasanaeth Tystion drefnu ymweliadau ymgyfarwyddo cyn yr achos llys os bydd angen a gallant egluro'r hyn allai ddigwydd yn y llys. Ond, nid ydynt yn cael trafod manylion achosion. Pan fydd tyst yn pryderu a phoeni am fynd i'r llys a rhoi tystiolaeth, gellir caniatáu i aelod o'r Gwasanaeth Tystion fynd gyda'r tyst i'r llys, i roi cefnogaeth. Os cafodd y tyst gefnogaeth gan asiantaethau eraill gellir caniatáu i aelod o'r gwasanaeth cefnogi hwnnw (er enghraifft, Cymorth i Fenywod neu gynghorwyr IDVA) fynd gyda'r tyst i'r llys hefyd.

Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol

7.30 Mae rhwydwaith o Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) yn cael ei sefydlu ledled Cymru a Lloegr fel rhan o fenter y Llywodraeth i roi cefnogaeth broffesiynol wedi'i thargedu i ddioddefwyr trosedd trais rhywiol. Bydd yr arbenigwyr hyn a hyfforddwyd yn broffesiynol yn gweithio ochr yn ochr â dioddefwyr o adeg yr argyfwng, megis y cyswllt cyntaf gyda'r gwasanaethau brys, trwy gydol y broses gyfreithiol a thu hwnt. Mae rhai cynghorwyr wedi'u lleoli mewn Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) neu mewn sefydliadau gwirfoddol trais rhywiol

arbenigol. Maent yn rhoi'r cyswllt gyda gwasanaethau hanfodol fel sefydliadau dioddefwyr a thystion, cynghori a iechyd, i sicrhau bod diogelwch y dioddefwr yn cael ei gydgysylltu ar draws pob asiantaeth.

7.31 Byddwn yn gweithio gydag ISVA neu grwpiau lleol eraill sy'n rhoi cefnogaeth arbenigol i ddioddefwyr treisio i ddatblygu canllawiau arferion da.

Unedau Gofal Tystion

7.32 Mae Dim Tyst, Dim Cyfiawnder yn rhaglen ar y cyd rhwng yr heddlu a'r CPS ac mae'n anelu at ymateb at anghenion unigol dioddefwyr a thystion trwy Unedau Gofal Tystion un pwrpas.

7.33 Mae gennym Unedau Gofal Tystion ym mhob un o 42 Rhanbarth y CPS ac mae'r rhain yn cael eu rhedeg ar y cyd gan y CPS a'r heddlu. Mae Swyddogion Gofal Tystion yn darparu un man cyswllt a chefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer pob tyst i sicrhau eu bod yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau. Mae'r gefnogaeth hon sydd wedi'i theilwra yn seiliedig ar asesu anghenion, sy'n cynnwys ystyried cefnogaeth arbenigol y gall fod ar dyst unigol ei hangen.

7.34 Bydd Swyddogion Gofal Tystion yn rheoli gofal y dioddefwr o'r gwrandawiad cyntaf yn y llys ynadon hyd at y gwrandawiad olaf a byddant yn cysylltu â'r Gwasanaeth Tystion i drefnu ymweliadau cyn y treial. Yn ogystal, byddant yn sicrhau bod y dioddefwr yn cael cefnogaeth wedi i'r achos gael ei gwblhau. Os bydd rhywun yn cael ei euogfarnu o gyflawni trosedd rhywiol ac yna'n cael dedfryd o garchar neu gadw am 12 mis neu fwy, bydd yr Uned

Gofal Tystion yn siarad â'r dioddefwr ynghylch eu cyfeirio at Gynllun Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a rhoi taflen iddynt ynghylch y cynllun. Mae'r cynllun yn galluogi dioddefwyr i gyflwyno achos ynghylch yr hyn y dylai fod yn amodau trwydded neu ofynion goruchwylio'r troseddwyr yn dilyn eu rhyddhau. Wedyn, bydd y rhai sy'n gweithredu'r cynllun yn sicrhau bod y dioddefwr yn cael gwybod beth yw'r amodau a osodwyd.

Addewid yr Erlynwyr

7.35 Mae hwn yn Addewid deg pwynt sy'n disgrifio lefel y gwasanaeth y gall dioddefwyr ddisgwyl ei dderbyn gan erlynwyr. Mae Addewid yr Erlynwyr yn sicrhau bod sylw yn cael ei roi i anghenion penodol dioddefwyr a thystion; eu bod yn derbyn cymorth yn y llys i'w hatgoffa o'u datganiad ysgrifenedig neu gyfweliad fideo; a'u bod yn cael eu gwarchod rhag ymosodiadau diwarant neu amherthnasol ar eu cymeriad.

7.36 Fe gewch gopi o daflen Addewid yr Erlynwyr gan Gangen Cyfathrebu y CPS neu ar ein gwefan: http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/prosecutor_pledge.html

Penderfyniadau Eraill

7.37 Yn aml, gall penderfyniadau am gynnydd achos gael eu cymryd yn y llys. Bydd dioddefwyr yn cael gwybod am y penderfyniadau hynny pan fyddan nhw yn y llys, un ai gennym ni neu gan yr adfocad erlyn y byddwn wedi'i gyfarwyddo. Os nad ydynt yn y llys, byddant yn cael gwybod cyn gynted â phosib wedyn, un ai gennym ni neu gan yr heddlu.

7.38 Yn y rhan fwyaf o dreialon, bydd cyfreithydd yr amddiffyniad yn ceisio herio adroddiad y dioddefwr am yr honiadau. Mae hyn yn rhan arferol o'u gwaith. Mae'n ddyletswydd ar yr amddiffyniad i herio'r dioddefwr ynghylch ei adroddiad ef neu hi. Fodd bynnag, y mae rheolau ynghylch croesholi amhriodol ac yn enwedig am ymddygiad rhywiol blaenorol y dioddefwr. Ni all y math hwn o holi ddigwydd oni bai fod y barnwr yn caniatáu hynny. Byddwn yn sicrhau bod y cyfreithydd erlyn yn mynd ati i wrthwynebu cwestiynau o'r fath yn briodol.

7.39 Byddwn hefyd yn gwrthwynebu honiadau ynghylch cymeriad neu ymddygiad y dioddefwr sy'n amherthnasol i'r materion yn yr achos.

Therapi Cyn Treial

7.40 Gall dioddefwyr treisio fod yn derbyn neu'n ystyried therapi cyn treial i'w helpu i wella yn dilyn eu profiadau.

7.41 Mae lles tystion yn hollbwysig ac ni ddylai dynion na menywod a gafodd eu treisio deimlo'n gyndyn o geisio cymorth proffesiynol.

7.42 Nid mater i'r heddlu na'r CPS yw penderfynu a ddylai dioddefwr treisio dderbyn therapi cyn achos troseddol. Mater i'r unigolyn neu eu gofalwyr, ar y cyd â'r asiantaethau proffesiynol sy'n darparu cefnogaeth, yw penderfynu mynd am therapi ai peidio.

7.43 Y mae'n bwysig, fodd bynnag, fod yr heddlu a'r CPS yn cael gwybod os bwriedir cynnig therapi, neu os yw'n digwydd.

7.44 Mae'r Canllaw llawn i'w gael yn "Darparu Therapi ar gyfer Plant sy'n Dystion cyn Achos Troseddol (Arweiniad i Arferion)" a: *"Provision of Therapy for Vulnerable or Intimated Adult Witnesses prior to a Criminal Trial (Practice Guidance)"*. Mae'r ddwy ddogfen i'w cael yn www.cps.gov.uk a www.homeoffice.gov.uk

8 Derbyn pledion

8.1 Mewn rhai achosion, gallwn ystyried derbyn ple euog gan y diffynnydd ar gyfer cyhuddiad heblaw treisio. Gallai hyn godi, er enghraifft, os bydd diffynnydd yn pledio'n euog i rai o'r cyhuddiadau, ond nid y cyhuddiadau i gyd, neu oherwydd nad yw'r dioddefwr yn dymuno bwrw ymlaen, neu oherwydd bod tystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg.

8.2 Wrth ystyried derbyn ple ai peidio, yn unol â'n hymrwymiadau dan 'Canllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Dderbyn Pledion a Rôl yr Erlynydd yn yr Ymarferiad Dedfrydu 2005' (diwygiwyd 2007), byddwn yn trafod y sefyllfa gyda'r dioddefwr neu deulu'r dioddefwr ble bynnag y bo modd, er mwyn gallu egluro'r sefyllfa a chael eu barn er mwyn ein helpu i wneud y penderfyniad cywir. Byddwn yn rhoi gwybod iddynt beth sy'n digwydd ac egluro ein penderfyniadau unwaith y byddant yn cael eu gwneud yn y llys.

8.3 Byddwn bob amser yn rhoi sylw priodol i fuddiannau'r dioddefwr, ac ni fyddwn yn derbyn ple euog sy'n cael ei gyflwyno ar sail set o ffeithiau camarweiniol neu gelwyddog.

9 Dedfrydu

9.1 Os bydd y diffynnydd yn cael ei euogfarnu o dreisio, bydd y barnwr yn penderfynu ar y ddedfryd. Y mae canllawiau ar gyfer barnwyr wrth ddedfrydu diffynyddion sy'n cael eu dyfarnu'n euog o dreisio. Nid oes gan yr erlyniad unrhyw rym i ofyn am ddedfryd benodol.

9.2 Mae'n ddyletswydd ar adfocad yr erlyniad fynd ati i gynorthwyo'r barnwr gyda'r gyfraith a chanllawiau ar ddedfrydu gan gynnwys unrhyw orchmynion a all fod ar gael i'r llys.

9.3 Mae'r canllawiau yn dweud y dylai treisio o fewn perthynas neu dreisio cydnabod gael eu trin gan y llysoedd yr un mor ddifrifol â threisio gan ddieithryn. Mae treisio dynion yr un mor ddifrifol â threisio rhwng dyn a menyw. Mae pob math o dreisio yr un mor ddifrifol.

9.4 Byddwn yn sicrhau bod y llys yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn dedfrydu'n briodol. Os oes Datganiad Personol Dioddefwr, byddwn yn rhoi gwybod i'r Llys amdano er mwyn iddo allu helpu'r llys i ddeall effaith y trosedd ar y dioddefwr. Trwy wneud hyn, byddwn yn sicrhau bod y llys yn gallu dod i benderfyniad gwybodus ynghylch dedfrydu. (I gael manylion am Ddatganiadau Personol Dioddefwyr, gweler paragraff 5.24 uchod.)

9.5 Cyn cael ei ddedfrydu, mae hawl gan ddiffynnydd i wneud ple i liniaru. Byddwn yn herio unrhyw liniaru gan yr amddiffyniad sy'n gamarweiniol, yn anwir neu sy'n ymosod yn annheg ar gymeriad y dioddefwr.

9.6 Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog ond yn anghytuno â fersiwn yr erlyniad o'r hyn a ddigwyddodd, rhaid i'r llys benderfynu pa fersiwn i'w defnyddio wrth ddedfrydu. Er mwyn gwneud hyn, gall y llys gynnal 'gwrandawiad Newton'. Ni fydd y llys yn cynnal gwrandawiad o'r fath oni bai ei fod yn teimlo y byddai gwahaniaeth sylweddol yn y ddedfryd petai'r diffynnydd yn cael ei ddedfrydu yn ôl fersiwn yr erlyniad o'r hyn a ddigwyddodd. Petai'r llys yn ystyried na fyddai gwahaniaeth sylweddol yn y ddedfryd, bydd y diffynnydd yn cael ei ddedfrydu yn ôl ei esboniad ef neu hi o'r hyn a ddigwyddodd.

9.7 Fodd bynnag, os bydd y llys yn teimlo y byddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r ddedfryd, gall y llys wrando ar dystiolaeth gan y ddwy garfan a gall wneud penderfyniad ar sail achosion a gyflwynir gan yr amddiffyniad a'r erlyniad. Ar ddiwedd y gwrandawiad, rhaid i'r barnwr gyhoeddi a yw'r erlyniad wedi profi ei fersiwn o'r digwyddiadau y tu hwnt i amheuaeth resymol.

9.8 Os bydd barnwr yn rhoi dedfryd sy'n rhy drugarog ym marn yr erlyniad oherwydd nad yw'n adlewyrchu difrifoldeb y trosedd, bydd y CPS yn gofyn i'r Twrnai Cyffredinol adolygu'r ddedfryd.

9.9 Os nad yw'r erlyniad yn ystyried y ddedfryd yn rhy drugarog ond bod y dioddefwr yn anghytuno, gall y dioddefwr ofyn i'r Twrnai Cyffredinol ystyried y ddedfryd, ond rhaid gwneud hynny o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad dedfrydu. Os bydd y CPS yn penderfynu peidio â chyflwyno'r achos i'w ystyried gan y Twrnai Cyffredinol, rhaid iddo hysbysu'r dioddefwr yn ddi-oed er mwyn diogelu opsiwn y dioddefwr

i gwyno'n uniongyrchol wrth y Twrnai Cyffredinol, ac fel y bydd digon o amser gan y Twrnai Cyffredinol i ystyried yr achos.

9.10 Os bydd y Twrnai Cyffredinol o'r farn bod y ddedfryd yn rhy drugarog, gall y Twrnai Cyffredinol ei chyfeirio at y Llys Apêl.

9.11 Rhaid gwneud cais i'r Llys Apêl o fewn 28 diwrnod i'r ddedfryd. Bydd y Llys Apêl yn penderfynu a yw'r ddedfryd yn rhy drugarog ai peidio ac, os ydyw, a ddylid cynyddu'r ddedfryd.

9.12 Fe fyddwn, trwy'r Uned Gofal Tystion (neu fan cyswllt arall, er enghraifft, swyddog yr heddlu) yn rhoi gwybod i ddioddefwyr am unrhyw apeliadau gan yr amddiffyniad yn erbyn euogfarnau a dedfrydau (gweler adran 6 y Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau). Bydd yr Uned Gofal Tystion neu'r heddlu hefyd yn hysbysu dioddefwyr os caniateir mechnïaeth i ddiffynnydd yn dilyn cais llwyddiannus am ganiatâd i apelio, neu ble caniateir apêl.

10 Rhoi gwybod i ddioddefwyr beth sy'n digwydd

10.1 Rydym yn deall pa mor bwysig yw hi fod dioddefwyr yn cael gwybod am gynnydd yr achos. Mae Unedau Gofal Tystion yn gyfrifol am roi gwybod i ddioddefwyr a thystion am ddyddiadau gwrandawiadau llys neu am ddatblygiadau pwysig eraill yn yr achos.

10.2 Rydym yn ymwybodol y gall fod yn well gan rai dioddefwyr enwebu ffrind, aelod o'r teulu, cynghorwyr IDVA neu aelod arall o'r gwasanaethau gwirfoddol i weithredu fel eu man cyswllt, i dderbyn gwybodaeth am eu hachos ac rydym yn fodlon hwyluso hyn. Neu, gallant ddibynnu ar swyddog yr heddlu sydd wedi derbyn hyfforddiant arbennig.

Y Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau

10.3 Mae'r Côd hwn yn nodi rhwymedigaethau'r CPS tuag at ddioddefwyr. Un o'r rhwymedigaethau yw dweud wrth ddioddefwr os byddwn yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i erlyn (yn dilyn adroddiad tystiolaethol llawn gan yr heddlu), neu petaem yn penderfynu gollwng achos, neu newid y cyhuddiadau yn sylweddol. Dan amgylchiadau o'r fath, byddwn yn egluro wrth ddioddefwr pam rydym wedi gwneud y penderfyniadau hyn. Fel arfer, byddwn yn gwneud hyn trwy ysgrifennu llythyr yn uniongyrchol at y dioddefwr.

10.4 Mewn achos treisio, bydd yr erlynydd a wnaeth y penderfyniad i ollwng neu newid y cyhuddiad yn sylweddol, yn hysbysu'r dioddefwr o fewn un diwrnod gwaith a hefyd

yn cynnig cwrdd â'r dioddefwr i esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad yn bersonol. Lle bo erlynydd wedi penderfynu peidio â chyhuddo yn ystod ymgynghoriad wyneb yn wyneb â swyddog o'r heddlu (hynny yw, heb adroddiad tystiolaethol llawn, ysgrifenedig), rhaid i swyddog yr heddlu hysbysu'r dioddefwr.

10.5 Os bydd achos yn cael ei ollwng neu gyhuddiad yn cael ei leihau a'r heddlu a'r CPS wedi penderfynu ei bod yn briodol gwneud hynny, fe fydd yr heddlu, yn unol â Phrotocol Treisio'r CPS/ACPO, yn danfon llythyr eglurhaol yn bersonol at y dioddefwr.

10.6 Mae copïau o'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau i'w cael ar ein gwefan:

http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/victims_code.pdf

11 Ymgysylltu â'r gymuned

11.1 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda'r gymuned i feithrin perthnasau cadarnhaol. Mae cyhoeddi'r datganiad polisi hwn yn gam pwysig tuag at gyrraedd y nod hwn. Rydym wedi ymgynghori'n eang wrth ei baratoi a byddwn yn parhau i'w adolygu ar ôl ei gyhoeddi. Byddwn yn rhoi'r polisi ar waith a cheisio drwy hynny feithrin ymddiriedaeth y cymunedau lleol yn ein gwaith a'r penderfyniadau a wnawn.

11.2 Rydym eisoes yn gweithio'n lleol i ddatblygu cysylltiadau agosach â grwpiau cynrychioliadol ac unigolion. Mae hyn o gymorth i ni egluro'r datganiad polisi a sut rydym yn disgwyl iddo weithredu yn y system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn ateb cwestiynau am y CPS a'r system cyfiawnder troseddol yn agored a heb godi disgwyliadau ffug am yr hyn y gellir ei gynnig.

.

12 Cwynion

12.1 Os bydd gan unrhyw un gŵyn am y ffordd y cawsant eu trin gan y CPS, neu os byddant yn teimlo bod y system cyfiawnder troseddol wedi'u siomi ac nad ydynt yn gwybod pwy allai fod yn gyfrifol, gallant ysgrifennu at Brif Erlynydd y Goron ar gyfer yr ardal ble maent yn byw. Mae gan y CPS bolisi cwynion, ac mae taflen sy'n egluro'r drefn i'w dilyn i'w chael yn swyddfa leol y CPS.

12.2 Dylid cyfeirio unrhyw achosion o dorri'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau at y CPS yn gyntaf fel y gellir ymdrin â hwy dan ein trefn gwynion. Os bydd yr achwynydd yn parhau'n anfodlon, gall yr Ombwdsman Seneddol ymchwilio i'r gŵyn ac adrodd amdani.

12.3 Mae manylion cyswllt y CPS wedi'u hargraffu ar glawr cefn y ddogfen hon.

13 Casgliad

13.1 Rydym yn ymrwymo i chwarae ein rhan i wella'r ffordd yr ymdrinnir ag achosion o dreisio yn y system cyfiawnder troseddol. Rydym eisiau i ddioddefwyr fod â hyder yn y ffordd rydym yn arolygu a bwrw ymlaen ag achosion.

13.2 Rydym yn gobeithio y bydd y ddogfen hon o gymorth i ddioddefwyr treisio a'u teuluoedd ddeall gwaith y CPS, sut byddwn yn gwneud ein penderfyniadau a'r gwahanol gamau yn y broses erlyn.

13.3 Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cydweithwyr yn y system cyfiawnder troseddol a'r trydydd sector yn genedlaethol a lleol i'n helpu i ddatblygu arferion gorau.

13.4 Byddwn yn arolygu'r datganiad polisi hwn yn rheolaidd er mwyn iddo adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r meddylfryd cyfredol. Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau i'n cynorthwyo i wneud hyn. Gellir anfon sylwadau ac awgrymiadau at:

Gwasanaeth Erlyn y Goron,
Y Gyfarwyddiaeth Polisi,
Rose Court,
2 Southwark Bridge
Llundain
SE1 9HS
hqpolicy@cps.gsi.gov.uk

Geirfa

Achosion Sifil
Achosion annhroseddol yw'r rhain, sydd fel arfer yn digwydd yn y Llys Sirol neu'r Uchel Lys. Ymhlith yr enghraifft o achosion sifil y mae gorchmynion rhag molestu, achosion ysgaru, cyswllt â phlant a phreswylio.

Ailholi
Mae hyn yn golygu bod y tyst yn cael ei holi eto yn y llys gan y sawl a alwodd yn wreiddiol arno ef neu hi i roi tystiolaeth. Mae'n dilyn croesholi.

Apêl
Cais ar i lys uwch newid penderfyniad a wnaed gan lys is.

Canolwr
Canolwr yw person sydd wedi'i hyfforddi yn arbennig i helpu plant ac oedolion a ystyrir yn agored i niwed er mwyn iddynt allu cyfathrebu yng ngorsaf yr heddlu ac yn y llys.

Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron
Dogfen sy'n disgrifio sut bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn gwneud penderfyniadau ynghylch achosion. Y mae ar gael yn eang i'r cyhoedd o unrhyw rai o'n swyddfeydd, ac fe'i ceir ar y rhyngrwyd yn:
www.cps.gov.uk/victims_witnesses/code.html.

Croesholi
Herio'r dystiolaeth a roddir gan dyst yn y llys.

Cyhuddo
Pan fydd person dan amheuaeth yn cael ei gyhuddo'n ffurfiol o gyflawni trosedd.

Cyhuddo statudol
Y system sy'n golygu mai'r CPS sy'n gyfrifol am benderfynu (ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf) a ddylai person dan amheuaeth gael ei gyhuddo, ac, os dylai, beth ddylai'r cyhuddiad(au) fod.

Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA)
Arbenigwr annibynnol sy'n gweithio ochr yn ochr â dioddefwyr trwy gydol y broses gyfreithiol, a thu hwnt. Byddant yn creu cyswllt â gwasanaethau hanfodol megis sefydliadau cefnogi dioddefwyr a thystion, sefydliadau cynghori, iechyd a thai, gan sicrhau bod asiantaethau yn cydgysylltu i gadw'r dioddefwr yn ddiogel.

Diffynnydd
Person sy'n cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd.

Dioddefwr
Person y mae rhywun wedi troseddu yn ei erbyn ef neu hi.

Erlynydd
Y sawl sy'n cyflwyno'r achos yn erbyn un neu fwy o ddiffynyddion. Mae erlynwyr yn cyflwyno achosion ar ran y Goron (hynny yw, y wladwriaeth) ac nid ydynt yn gweithredu ar ran dioddefwyr.

Euogfarnu
Penderfyniad gan ynadon neu reithgor bod y diffynnydd yn euog.

Gohiriad
Gohirio gwrandawiad yr achos tan ryw ddyddiad yn y dyfodol.

Gwrandawiad Newton
Gall y llys benderfynu cynnal 'gwrandawiad Newton' os bydd y diffynnydd wedi pledio'n euog, ond yr amddiffyniad a'r erlyniad yn dadlau am y ffeithiau y bydd y llys yn eu defnyddio'n sail wrth benderfynu ar ddedfryd y diffynnydd. Pwrpas y gwrandawiad yw sefydlu'r sail ffeithiol ar gyfer pennu'r ddedfryd.

Gŵys tystio
Gorchymyn llys i unigolyn ymddangos yn y llys mewn lleoliad penodol ac ar adeg benodol.

Llys y Goron
Llys ble bydd barnwr a rheithgor o ddeuddeg aelod o'r cyhoedd yn delio ag achosion troseddol. Yr achosion a wrandewir yn Llys y Goron yw'r rhai sy'n debygol o ddenu dedfrydau uwch (er enghraifft, treisio, niwed corfforol difrifol a llofruddiaeth). Bydd Llys y Goron hefyd yn delio ag apeliadau ar gyfer achosion y bydd y llysoedd ynadon a llysoedd ieuenctid yn delio â nhw.

Llys ynadon
Llys ble bydd ynadon neu farnwyr rhanbarth yn delio ag achosion troseddol. Mae llysoedd ynadon yn dueddol o ddelio ag achosion sy'n denu dedfrydau is, megis ymosod cyffredin a difrod troseddol.

Mechnïaeth
Rhyddhau unigolyn sy'n cael ei gadw yn y ddalfa tra bydd yn disgwyl am dreial neu'n apelio yn erbyn euogfarn troseddol.

Mesurau arbennig
Y cymorth y gall llys ei gynnig i dystion er mwyn iddynt allu rhoi eu tystiolaeth orau yn y llys. Mae hyn yn cynnwys: cyswllt fideo byw, datganiadau wedi'u recordio ar fideo, sgriniau o amgylch y bocs tystion, a chymorth gyda chyfathrebu.

Ple
Pan fydd diffynnydd yn dweud ei fod ef neu hi yn euog neu'n ddieuog.

Prif holiad
Cwestiynu'r tyst gan y garfan a alwodd arno efo neu hi. Bydd tystion yr erlyniad yn cael eu holi gan yr erlyniad yn gyntaf, cyn cael eu croesholi gan yr amddiffyniad.

Treial
Bydd hyn yn digwydd ar ôl i ddiffynnydd bledio'n ddieuog neu wrthod pledio. Bydd yr ynadon neu'r rheithgor yn clywed beth ddigwyddodd gan yr erlyniad a'r amddiffyniad, er mwyn iddynt allu penderfynu a yw'r diffynnydd yn euog ai peidio.

Tyst
Person sy'n gallu rhoi tystiolaeth berthnasol mewn achos troseddol. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys dioddefwr y trosedd.

Tystiolaeth
Y wybodaeth a roddir i'r llys i'w helpu i wneud penderfyniad ynghylch a yw diffynnydd yn euog ai peidio. Y 'dystiolaeth flaenaf' yw'r dystiolaeth a gyflwynir i'r llys yn ystod y prif holiad.

Uned Gofal Tystion
Mae Unedau Gofal Tystion yn cael eu rhedeg gan yr heddlu a'r CPS, gan roi help a gwybodaeth i ddioddefwyr a thystion yr erlyniad.

Atodiad A

Women's Aid

Mae Women's Aid yn elusen genedlaethol allweddol sy'n gweithio yn Lloegr i roi diwedd ar drais yn y cartref i fenywod a phlant.
Blwch Post 391
Bryste
BS99 7WS
Lloegr
Ffôn: 0117 944 4411
Ffacs: 0117 924 1703
Llinell Gymorth Genedlaethol Trais yn y Cartref:
0808 2000 247
E-bost: info@womensaid.org.uk; helpline@womensaid.org.uk

Canolfan Genedlaethol Cymorth i Ddioddefwyr

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn elusen genedlaethol annibynnol sy'n rhoi cefnogaeth a gwybodaeth gyfrinachol yn rhad ac am ddim i helpu dioddefwyr ddelio â'u profiadau.
Hallam House
56-60 Hallam Street
Llundain
W1W 6JL
Ffôn: 020 7268 0200
Gwefan: www.victimsupport.org.uk

Llinell Cymorth i Ddioddefwyr

Llinell Cymorth i Ddioddefwyr: 0845 3030 900
E-bost: supportline@victimsupport.org.uk

Refuge

Elusen genedlaethol i fenywod a phlant sy'n wynebu trais yn y cartref yw Refuge.
4ydd Llawr
International House
1 St Katherine's Way
Llundain E1W 1UN
Ffôn: 020 7395 7700
Llinell Gymorth Genedlaethol Trais yn y Cartref
0808 2000 247
E-bost: info@refuge.org.uk
Gwefan: www.refuge.org.uk

ChildLine

ChildLine yw'r llinell gymorth 24 awr i blant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig.
Ffôn: 0800 1111

NSPCC – Llinell Gymorth Genedlaethol Amddiffyn Plant

Llinell gymorth 24 awr am ddim sy'n rhoi cyngor, help neu wybodaeth am faterion yn gysylltiedig â lles plentyn.
Ffôn: 0808 800 5000
E-bost: help@nspcc.org.uk

Llinell gymorth 24 awr Trais yn y Cartref

Mae'r llinell gymorth radffon gyfrinachol, 24 awr ar gyfer dioddefwyr trais yn y cartref yn cael ei rhedeg mewn partneriaeth gan Refuge a Chymorth i Fenywod.
Dyma'r rhif ffôn rhadffon 24 awr:
Ffôn: 0808 2000 247

Llinell Gymorth Survivors UK

Mae'n cefnogi a rhoi adnoddau i ddynion sydd wedi cael profiad o unrhyw fath o drais rhywiol.
Ffôn: 0845 122 1201 (y llinell gymorth ar agor ddydd Mawrth a dydd Iau 7pm – 10pm)
Gwefan: www.survivorsuk.co.uk

Women's Rape and Sexual Abuse Centre, Cernyw

Cefnogaeth gyfrinachol am ddim i fenywod a merched yn eu harddegau.
Llinell gymorth: 01208 77099
Oriau'r llinell gymorth: Dydd Llun i ddydd Iau,
10am – 1pm
Nos Lun, 7.30pm – 10pm
A pheiriant ateb 24 awr

Southall Black Sisters

Sefydliad dielw a gafodd ei sefydlu i fodloni anghenion menywod duon (Asiaidd ac Affro-Caribïaidd).
21 Avenue Road
Southall
Middlesex
UB1 3BL
Ffôn: 020 8571 9595 (ar gau ddydd Mercher)
E-bost: sbs@leonet.co.uk
Gwefan: www.southallblacksisters.org.uk

Mae hon yn ddogfen gyhoeddus.

Y mae ar gael ar wefan y CPS: www.cps.gov.uk
Mae rhagor o gopïau o'r ddogfen hon ar gael gan:

Cangen Cyfathrebu y CPS
Rose Court
2 Southwark Bridge
London SE1 9HS

Ebost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Cyfarwyddiaeth Polisi y CPS
© Hawlfraint y Goron Adolygwyd 2012

Y mae cyfieithiadau i ieithoedd eraill a chopïau sain ar gael ar eich cais gan Gangen Cyfathrebu y CPS